**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1348
Ein cyf/Our ref EM/01941/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Government.Committee.Business@llyw.cymru

16 Awst 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr pellach dyddiedig 14 Gorffennaf ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â'r gwasanaethau i bobl sydd â syndrom Ehlers-Danlos ac anhwylderau sbectrwm hypersymudedd.

Mae arbenigwyr ymgynghorol cyffredinol ar gael ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru, a bydd y rheini sy'n byw gyda chyflwr anghyffredin yn cael gofal amlddisgyblaeth o ansawdd da mor agos i'w cartrefi â phosibl. Bydd y rhan fwyaf o gleifion sydd â syndrom Ehlers-Danlos o dan ofal rhiwmatolegydd, a fydd ag arbenigedd yn y maes. Gan y bydd syndrom Ehlers-Danlos yn effeithio ar nifer o systemau fel arfer, yr arfer gorau yw defnyddio arbenigeddau Tîm Amlddisgyblaeth i ddarparu gofal.

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sy'n comisiynu'r diagnosis o syndrom Ehlers-Danlos mewn plant yr amheuir bod ganddynt y syndrom. Er y gellir atgyfeirio plant ar gyfer cael asesiad diagnostig, bydd y cyflwr yn cael ei reoli a'i drin drwy glinigwyr lleol. Dim ond plant sydd â mathau clasurol, fasgwlaidd, neu anghyffredin o syndrom Ehlers-Danlos sy'n cael eu hystyried gan y gwasanaeth diagnostig arbenigol, a rhaid i blant gael eu hatgyfeirio gan arbenigwr mewn ysbyty.

Mae'r llwybr arferol i oedolion yn rhan o gyfrifoldeb rhewmatoleg y bwrdd iechyd. I rai cleifion, dim ond nifer bach o ganolfannau yn y DU sy'n cynnig y lefel uchel o arbenigedd y mae ei hangen i'w trin. Os oes posibilrwydd fod gan unigolyn fath anghyffredin o syndrom Ehlers-Danlos, gall meddygon teulu ei atgyfeirio i'r gwasanaeth geneteg lleol ar gyfer asesiad. Os bydd angen ymchwilio ymhellach, mae'n bosibl atgyfeirio'r claf i'r Gwasanaeth Diagnostig Cenedlaethol ar gyfer syndrom Ehlers-Danlos.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r Grŵp Gweithredu ar gyfer Clefydau Anghyffredin wrthi’n cwmpasu’r cyfle y gallai canolfan iechyd rithiol ei ddarparu i’r rheini y mae clefydau anghyffredin yn effeithio arnynt. Y nod fydd darparu cefnogaeth gan gymheiriaid a chyfleoedd arweinyddiaeth, gwella sut mae gofal yn cael ei gydgysylltu, a chodi ymwybyddiaeth o astudiaethau ymchwil.

Mae’r Grŵp hefyd yn cefnogi clinig SWAN a chlinig Tîm Amlddisgyblaeth ar gyfer Clefydau Anghyffredin Pediatrig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Bro Morgannwg, sy’n awyddus i ddeall effeithiau cydgysylltydd gofal a enwir, ymhlith amcanion eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio’n agos gyda’r rhwydweithiau clinigol strategol yng Ngweithrediaeth GIG Cymru sydd newydd ei sefydlu, er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio ar ddealltwriaeth a chymorth y rhwydweithiau i wella mynediad at ddiagnosis a thriniaeth i’r rheini sydd â chlefydau anghyffredin, a thrwy hynny gwella ymwybyddiaeth a hyfforddiant o fewn y rhwydweithiau eu hunain.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services